Cyngor Cymuned Ebrill 21 yn Festri Tabor

Presennol : Islwyn Jones, Fred Jones, Huw Griffith, David Jones, Peter Tandy, Lyn Davies.

Ymddiheuriadau – Margaret Lewis, Morgan Morgan.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1 Newid enw arwyddo yn y banc
Oherwydd prinder amser, ni fu'n bosibl cyflawni hyn hyd yma.

2 Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol. Ar ôl siarad â'r brifathrawes deallwyd mai cynrychiolydd o'r gymuned oedd angen ac nid, o reidrwydd, o'r Cyngor Cymuned. Cytunodd Lyn Davies i barhau yn y swydd hyd ddiwedd y flwyddyn ysgol bresennol, er mwyn rhoi amser i'r ysgol ystyried gofyn i rywun arall.

<u>Gohebiaeth</u>

1 Hysbysiad Cau Ffordd Dros Dro yn Bontnewydd ddiwedd Mawrth. Gosodwyd y map ar hysbysfwrdd y pentre.

2 Cynllun Strategol a Chynllun Gwella Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ar ôl yr ymgynghori cyhoeddus mae'r cynlluniau terfynol i'w gweld bellach ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub.

3 Mobile Infrastructure Project. Derbyniwyd gwybodaeth y byddai rhwydwaith EE a 3 yn weithredol yn ystod mis Ebrill a Vodafone ac O2 ar gael ym Mehefin. Cadarnhawyd hyn gan y ffaith fod ffonau symudol y Cynghorwyr yn gweithio yn y Festri ar ddiwrnod y cyfarfod.

4 Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Ebrill.

5 Pwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru yn cyfarfod yn Aberaeron, Ebrill 27

6 Trefnwyr Ras yr Iaith yn gofyn i'r Cyngor noddi un cilomedr o'r ras am £50. Gofynnwyd i'r clerc gael rhagor o fanylion ynglŷn â phwy sy'n elwa o'r arian nawdd, ac ym mha ffordd, cyn dod i benderfyniad.

7 Cais oddi wrth y Cylch Meithrin yn gofyn am le chwarae i'r plant. Bu'r Cyngor yn ystyried cais tebyg o'r blaen, ond wedi methu dod o hyd i safle pwrpasol. Cytunwyd i barhau i chwilio am leoliad addas.

Ariannol

Gwybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir y bydd y praesept yn y cyfrif banc erbyn 30 Ebrill.

Awdurdodwyd talu bil trydan am £42 21, a chyflog y clerc am £200.

Arian yn y banc - £222.24   Cyfrif  rhif 2 - £4776.48.

Hysbysiad oddi wrth AON Ins fod y swm o £329.42 i'w dalu erbyn Mehefin 1af. Mae'r swm yn fwy nag a ddisgwyliwyd am fod Insurance Premium Tax wedi codi o 6% i 9.5%

Dosbarthwyd copïau o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2015/16

Derbyniwyd y ffurflenni ar gyfer yr audit blynyddol a gofynnwyd i'r clerc baratoi'r ffigurau ar gyfer yr archwiliwr mewnol Anthony Morgan.  Gwelwyd bod nifer o ofynion newydd y tro hwn ar ffurflenni'r archwilwyr allanol newydd sef Grant Thornton. Rhaid i'r clerc hefyd sicrhau bod hysbysiad ynglŷn â hawliau etholwyr i astudio'r cyfrifon, ac ati, yn ymddangos mewn man cyhoeddus.

Unrhyw fater arall.

Wrth asesu'r ciosg ffôn ger Capel Moreia ar gyfer gosod diffibriliwr o'i fewn, gwelwyd bod angen atgyweirio'r drws.  Gofynnwyd i Peter Tandy a/neu Dylan Tandy fynd ynghyd â'r gwaith ac archebu'r deunydd angenrheidiol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Mai 19.